Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Sut i gwyno wrthym am ymddygiad cynghorwyr lleol



ombwdsmon.cymru

Ni yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Gwnawn dri pheth. Rydym yn:

- ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- ysgogi gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio.



Mae'r daflen hon yn ymwneud â sut i gwyno wrthym fod cynghorydd wedi torri ei God Ymddygiad. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud ar ein gwefan: **ombwdsmon.cymru**.

## Am y Cod Ymddygiad

Mae gan gynghorau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phaneli heddlu a throseddu yng Nghymru God Ymddygiad.

Mae'r Cod yn egluro sut y mae'n rhaid i aelodau'r sefydliadau hyn ('cynghorwyr') ymddwyn yn rhinwedd eu swydd, ac (weithiau) yn breifat. Os ydych yn meddwl bod cynghorydd wedi torri'r Cod, gallwch gwyno i ni.

## Gallwn ymchwilio i'ch cwyn os:

- [ ] gwelwn dystiolaeth glir y gallai'r cynghorydd fod wedi torri'r Cod.

- [ ] byddai ymchwilio er budd y cyhoedd. I benderfynu hyn, rydym yn edrych ar nifer o faterion. Er enghraifft,
    - os oes angen i ni ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.
    - a fyddai'n gymesur i ni ymchwilio.

Os penderfynwn beidio ag ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn esbonio pam. Byddwn yn anfon copi o'n penderfyniad at y cynghorydd, y Swyddog Monitro ac, os yw'n berthnasol, y Clerc hefyd.

Os byddwn yn ymchwilio ac yn canfod bod y cynghorydd wedi gwneud rhywbeth o'i le a bod angen cymryd camau pellach, byddwn yn cyfeirio ein hadroddiad at Bwyllgor Safonau'r sefydliad perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru.

Yna maent yn edrych ar y gŵyn a'n hadroddiad ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r cynghorydd. Er enghraifft, gallant atal y cynghorydd dros dro neu ei ddiswyddo.

**Mae'n rhaid i chi ddeall, os byddwch yn cwyno wrthym, mae'n rhaid i ni roi gwybod i'r cynghorydd pwy ydych chi. Efallai y bydd angen i chi hefyd siarad â ni ar gofnod a rhoi tystiolaeth mewn gwrandawiad.**

## Helpwch ni i'ch helpu chi

Pan fyddwch yn cwyno wrthym, anfonwch yr holl wybodaeth berthnasol sydd gennych. Os gallwch, dylech gynnwys copi o ymateb y sefydliad i'ch cwyn. Byddwch mor glir ag y gallwch, fel y gallwn ddeall eich tystiolaeth yn gyflym ar hyn rydych am i'r sefydliad ei wneud er mwyn gwneud pethau'n iawn i chi. Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch cyn gwneud eich cwyn, cysylltwch â ni ar **holwch@ombwdsmon.cymru** neu ar **0300 790 0203** a gwnawn ein gorau i helpu.

## Sut i gwyno i ni

cwblhewch ein **ffurflen gwyno ar-lein**

postiwch eich ffurflen gwyno:
**1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ**

Am ein ffurflenni cwyno, ewch i'n gwefan: ombwdsmon.cymru

Gallwn hefyd bostio copi atoch.

Os hoffech ddarllen y daflen hon mewn fformat arall (er enghraifft Braille, print bras neu Hawdd ei Ddeall), rhowch wybod i ni.